# Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru 2012

Citius. Altius. Fortius.

Yn gyflymach. Yn uwch. Yn gryfach.

Gredwch chi mai bwriad yr Olympiaid cyntaf oedd paratoi dynion ifainc ar gyfer rhyfeloedd? Gyda gweledigaeth dreisgar, edrychwch sut y gall y daliadau cynnar gael eu camddehongli a throi pobl yn arfau yn erbyn ei gilydd.

Er bod rhyfeloedd yn parhau i'n rhwygo, mae'r Olympiaid yn gyfle prin i sbarduno fflam undod rhyngwladol. Ystyriwch dri o ddaliadau'r Olympiaid erbyn heddiw; chwarae teg, gwaith caled a pheidio twyllo. Ychwanegwch y gymdeithas o gannoedd o ddiwylliannau amrywiol, ac wele'r Olympiaid yn rhoi cartref i heddwch. Mae pawb yn sefyll ar y llinell gychwyn gyda'i gilydd; i ddathlu dawn ac i anghofio'n gwahaniaethau.

Citius. Altius. Fortius

Bobl ifainc y byd; mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r geiriau hyn yng nghyd destun heddwch. Down i benderfyniadau teg, cyflawnwn fwy nag erioed, byddwn yn uned gyda'n gilydd.

Cyhoeddwn Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn gyflymach, yn uwch ac yn gryfach nag erioed o'r blaen gan rannu grym ei fflam i bedwar ban byd.

**Lluniwyd gan Fforwm Ieuenctid Eryri**